Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Branas

## Dyddiad yr arolygiad:  Tachwedd 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Branas

Mae Ysgol Branas yn darparu addysg a therapi arbenigol ar gyfer bechgyn sydd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol cymhleth ac anawsterau dysgu cymedrol. Caretech Ltd sy'n rheoli'r ysgol, ac yn berchen arni.

Mae 18 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yn Lloegr ac yn byw yn y cartrefi plant a weithredir gan Caretech. Mae gan bron bob un ohonynt gynllun addysg, iechyd a gofal. Mae'r cartrefi plant wedi eu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae pob un o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel eu mamiaith.

Mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd er mis Ionawr 2018.

## Prif gryfderau

### *Cryfderau*

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi bod â throsiant sylweddol o ddisgyblion, gan wneud cyfanswm o bron i hanner y disgyblion ar y gofrestr. Ers hynny, bu staff yn cynnal asesiadau cychwynnol i sicrhau bod cynllunio yn diwallu anghenion y disgyblion newydd yn briodol. Maent wedi paratoi cynlluniau unigol addas ar gyfer pob disgybl ac wedi dechrau mesur cynnydd yn unol â'r targedau cychwynnol a osodwyd.

Mae newidiadau diweddar i'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi gwella'i allu i gynllunio a monitro llwyddiant yr ysgol, er ei bod yn rhy gynnar i fesur yr effaith ar safonau disgyblion ac addysgu.

Mae'r pennaeth wedi cynnal hunanwerthusiad trylwyr o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Mae ganddi farn glir am y meysydd y mae angen eu gwella. Fodd bynnag, bu'r camau gweithredu i wneud y newidiadau sydd eu hangen yn araf yn datblygu, yn bennaf o ganlyniad i'r newid sylweddol diweddar o ran y disgyblion ar y gofrestr.

Mae'r ysgol wedi gwella'r cyfleoedd i ddisgyblion ennill achrediad am eu dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn ennill ystod eang o achredu addas am eu cyflawniadau, gan gynnwys cymwysterau TGAU yn y pynciau craidd, sef Saesneg a mathemateg.

Mae ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd awyr agored yr ysgol ar draws dau safle yn cynnwys adnoddau priodol, ac maent yn cefnogi dysgu disgyblion yn dda. Mae gan staff ddealltwriaeth gadarn o anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion ac maent yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol trwy ystod eang o weithgareddau addysgol, gan gynnwys cyrsiau addysg a galwedigaethol awyr agored.

Mae'r ysgol yn darparu ystod briodol o brofiadau dysgu ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.

### *Meysydd i'w datblygu*

Mae'r trosiant sylweddol diweddar o ddisgyblion yn yr ysgol wedi ei gwneud yn ofynnol i arweinwyr ganolbwyntio eu blaenoriaethau ar asesu anghenion a threfnu darpariaeth addas. Fodd bynnag, bu arweinwyr yn araf yn mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn yr ymweliad monitro blynyddol diwethaf.

Nid yw'r addysgu yn rhoi ystyriaeth ddigon cyson i les emosiynol disgyblion. Nid yw'n ddigon hyblyg i ymgysylltu â disgyblion a'u cymell, yn enwedig pan fyddant yn wynebu cyfnodau o orbryder. Er enghraifft, nid yw disgyblion yn cael gweithgareddau dysgu unigoledig oddi ar y safle, lle bo'n briodol, i gefnogi eu lles emosiynol yn well.

Mae cynllunio athrawon i wella cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm yn datblygu. Er gwaethaf hyn, nid yw disgyblion yn ymarfer a datblygu eu medrau'n ddigon da ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys mewn gweithgareddau galwedigaethol, gweithgareddau cyfoethogi a gweithgareddau awyr agored.

Mae’r ysgol yn monitro cynnydd disgyblion o ran eu targedau ymddygiadol. Mae arweinwyr yn dadansoddi data yn rheolaidd i wirio am batrymau ymddygiad. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio’r data hwn yn ddigon da i gynllunio strategaethau priodol ar gyfer gwelliannau. O ganlyniad, mae ymddygiad ychydig iawn o ddisgyblion, yn enwedig wrth iddynt brofi cyfnodau o orbryder, yn tarfu ar ddysgu eu cyfoedion.

Nid yw disgyblion yn cyrraedd dechrau gwersi’n brydlon yn rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys cyrraedd yr ysgol mewn da bryd. O ganlyniad, caiff amser dysgu gwerthfawr ei wastraffu.

Nid yw’r ysgol wedi cael caniatâd gan Lywodraeth Cymru i ddefnyddio rhan o’i safle.

## Argymhellion

**Dylai’r ysgol:**

**A1. Sicrhau bod athrawon yn defnyddio gwybodaeth am allu a lles emosiynol disgyblion wrth gynllunio gwersi**

**A2. Gwella asesu medrau disgyblion a sicrhau bod cynllunio yn eu galluogi i ddatblygu ac ymarfer y medrau hyn ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys gweithgareddau galwedigaethol, gweithgareddau cyfoethogi a gweithgareddau awyr agored**

**A3. Sicrhau bod data ar ymddygiad disgyblion yn cael ei ddefnyddio’n effeithiol i gynllunio profiadau dysgu sy’n cymell ac yn ennyn diddordeb disgyblion**

**A4. Sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd gwersi’n brydlon**

**A5. Gwneud cais i Lywodraeth Cymru am wneud newid perthnasol i gofrestriad yr ysgol**

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau bod athrawon yn defnyddio gwybodaeth am allu a chynnydd disgyblion wrth gynllunio gwersi i ddiwallu anghenion dysgu disgyblion**

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth newydd wrthi'n dechrau datblygu prosesau gwell ar gyfer sicrhau ansawdd gwaith yr ysgol. Mae'n rhy gynnar i farnu effeithiolrwydd y trefniadau newydd ar gynllunio athrawon.

**Argymhelliad 2: Cryfhau'r ddarpariaeth ymhellach i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys mewn gweithgareddau galwedigaethol, gweithgareddau cyfoethogi a gweithgareddau awyr agored**

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth newydd wrthi'n dechrau datblygu prosesau gwell ar gyfer sicrhau ansawdd gwaith yr ysgol. Mae'n rhy gynnar i farnu effeithiolrwydd y trefniadau newydd.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

***Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion***

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- **Wneud cais i Lywodraeth Cymru am wneud newid perthnasol**

***Safon 6: Darparu gwybodaeth***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd.  I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/01/2020